**Bridgend County Borough Council**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd/Rheoli Achosion a Phontio/Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal |
| **SWYDD:** | Dirprwy Reolwr Tîm – Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR13 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Tîm – Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal |

## DIBEN Y SWYDD:

Cynorthwyo'r rheolwr tîm i reoli a chydlynu gwaith y Tîm wrth ddarparu cymorth ac asesu plant sy'n derbyn gofal

Gweithio gyda'r rheolwr tîm i ddatblygu a sicrhau gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal, eu gofalwr a'u teuluoedd yn unol â pholisïau presennol, arfer gorau, deddfwriaeth, gweithdrefnau a systemau.

Dirprwyo ar ran y rheolwr tîm yn ei absenoldeb gan gymryd cyfrifoldeb dirprwyedig am reoli'r tîm.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Cynorthwyo'r rheolwr tîm wrth reoli'r Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal drwy gyfrannu at ddatblygu a darparu'r gwasanaeth i fodloni gofynion statudol a chanllawiau. Cynorthwyo â chydlynu a rheoli gwaith y tîm wrth ddarparu gwasanaethau o safon uchel i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cynorthwyo rheolwr y tîm wrth ddyrannu gwaith, blaenoriaethu gwaith y tîm i sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu a'u hasesu'n briodol mewn ffordd amserol a defnyddio adnoddau i ddiwallu anghenion a nodwyd.
- Cynnwys unigolion a gofalwyr wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau.
- Goruchwylio nifer o weithwyr cymdeithasol cymwys, gweithwyr cymdeithasol cynorthwyol, gweithwyr cyswllt ac uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol drwy oruchwylio ac arfarnu staff, a thrwy roi cyngor ac ymgynghori i staff gwaith cymdeithasol a staff cymorth eraill yn unol â pholisi. Rheoli staff gan ddilyn fframweithiau polisi a gweithdrefnau Adnoddau Dynol.
- Cadeirio cyfarfodydd gyda theuluoedd a meddu ar achosion achlysurol mewn perthynas ag achosion sensitif, acíwt a chymhleth yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal.
- Ynghyd â'r rheolwr tîm, dadansoddi gwybodaeth rheoli perfformiad i gynorthwyo amseroldeb asesiadau, adolygiadau a pherfformiad arall y cyflwynir adroddiadau arno yn ffurfiol. Sicrhau ansawdd a chynnwys asesiadau a chynlluniau yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol. Gwneud penderfyniadau a dyfarniadau am y perygl o gam-drin o fewn y fframwaith rheoli y cytunwyd arno.

- Sicrhau bod cynllunio parhad yn ei le a'i fod yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau a fydd yn rhoi sicrwydd o ran ymlyniad a pharhad gofal.
- Cynorthwyo'r rheolwr tîm drwy gyfrannu at gyfarfodydd strategol/rheoli a gweithio amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol effeithiol. Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon gwaith y tîm gan gynnwys gwerthuso cyflawni amcanion, targedau, blaenoriaethau a safonau. Cynorthwyo'r Uwch Dîm Rheoli wrth ddatblygu strategaeth, polisi a gweithdrefnau.
- Cymryd rhan mewn rhaglenni ymsefydlu a rhaglenni hyfforddi eraill i staff. Rhoi gwybod i uwch-reolwyr am gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i ddatblygu cymwyseddau staff yn y maes gwasanaeth yn ogystal â'r angen posibl i gychwyn gweithdrefnau disgyblu a chymryd rhan yn y gweithdrefnau hyn lle y bo angen.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Dirprwy Reolwr Tîm - Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster gwaith cymdeithasol yn ddelfrydol wedi'i ategu gan gymhwyster rheoli priodol.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf tair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso a phrofiad sylweddol o weithio mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc.<br>• Llwyddiant blaenorol o oruchwylio ymarferwyr gwaith cymdeithasol.<br>• Gwybodaeth drylwyr am ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.<br>• Gwybodaeth drylwyr am y Fframwaith ar gyfer Asesu, gweithdrefnau Systemau Integredig i Blant, a threfniadau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau a rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau cymdeithasol. Gan gynnwys cyllidebu, gweithdrefnau ariannol, personél a gweithdrefnau contractio.<br>• Profiad o weithio gyda phlant sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol, y rhai ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Gofal a Chymorth.<br>• Profiad ôl-gymhwyso o weithio mewn lleoliad gofal cymdeithasol plant. | Ydy<br><br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau priodol sy'n seiliedig ar risg. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu ymgymryd â rôl arweiniol mewn perthynas â staff a darparu gwasanaethau. | Ydy | |
| | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill. | | |
| | • Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol | | |
| | • Gallu dangos sgiliau trefnu da. | Ydy | |
| | • Sgiliau TG da. | | |
| | • Gallu meddwl yn glir o dan bwysau. | | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol. | | |
| | • Gallu gweithredu gwybodaeth ymarferol am bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant. | | |
| | • Gallu cynnig arweiniad a chyngor proffesiynol i staff. | | |
| | • Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. | Ydy | |
| | • Ymrwymiad i weithio mewn amgylchedd heriol a newidiol. | | |
| | • Gallu dadansoddi a dehongli'r wybodaeth a gesglir. | | |
| | • Gallu asesu risg a chynllunio'n briodol. | | |
| | • Gallu cynnig arweiniad a chyngor proffesiynol i staff. | | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gwerthfawrogi pwysigrwydd rheoli ariannol, cadw cofnodion, cywirdeb a rheoleidd-dra.<br><br>• Gallu gweithredu gwybodaeth ymarferol am bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant.<br><br>• Gallu cynnig arweiniad a chyngor proffesiynol i staff.<br><br>• Gallu nodi ymyriadau priodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar ddadansoddiad o angen.<br><br>• Mae'r gallu i gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd hon. | | |